# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 27 Mawrth 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(56)

### 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13:30.

Gofynnwyd cwestiynau 1 – 4 a 6 – 14. Tynnwyd cwestiynnau 5 a 15 yn ôl. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

### 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14:21.

### 3. Datganiad gan y Cwnsler Cyffredinol: Ymgynghoriad ar awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân i Gymru

Dechreuodd yr eitem am 14:37.

### 4. Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd: Strategaeth Pysgodfeydd Cymru

Dechreuodd yr eitem am 15:07.

### 5. Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Gwasanaethau Ariannol

Dechreuodd yr eitem am 15.46

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

### 6. Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Trosglwyddo Swyddogaethau, Darpariaethau Trosiannol a Chanlyniadol) 2012

Dechreuodd yr eitem am 15.47

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

### 7. Dadl: Cynllun Drafft ar Hawliau Plant i'w gymeradwyo o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011

Dechreuodd yr eitem am 15.55

**NDM4950 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag adran 3(6) o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011:

Yn cymeradwyo'r Cynllun Hawliau Plant drafft a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 20 Mawrth 2012.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad yw'r cynllun yn mynnu bod Llywodraeth Cymru yn adrodd i'r Cynulliad Cenedlaethol yn flynyddol ar gydymffurfio â'i dyletswydd i roi sylw dyledus i'r CCUHP.

**Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad yw'r cynllun yn cynnig cyfleoedd cryfach ar gyfer herio'n briodol os ystyrir nad yw Gweinidogion Cymru wedi cydymffurfio â'u dyletswydd i roi sylw dyledus i'r CCUHP.

**Derbyniwyd gwelliant 2 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 3 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad yw'r Cynllun yn darparu ar gyfer mecanwaith adrodd cadarnach sy'n mynnu bod Gweinidogion Cymru'n adrodd yn amlach i'r Cynulliad.

**Derbyniwyd gwelliant 3 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**

**NDM4950 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag adran 3(6) o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011:

Yn cymeradwyo'r Cynllun Hawliau Plant drafft a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 20 Mawrth 2012.

Yn gresynu nad yw'r cynllun yn mynnu bod Llywodraeth Cymru yn adrodd i'r Cynulliad Cenedlaethol yn flynyddol ar gydymffurfio â'i dyletswydd i roi sylw dyledus i'r CCUHP.

Yn gresynu nad yw'r cynllun yn cynnig cyfleoedd cryfach ar gyfer herio'n briodol os ystyrir nad yw Gweinidogion Cymru wedi cydymffurfio â'u dyletswydd i roi sylw dyledus i'r CCUHP.

Yn gresynu nad yw'r Cynllun yn darparu ar gyfer mecanwaith adrodd cadarnach sy'n mynnu bod Gweinidogion Cymru'n adrodd yn amlach i'r Cynulliad.

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

Daeth y cyfarfod i ben am 16.48

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, ddydd Mercher, 28 Mawrth 2012**